PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Mercher, 22 Mehefin am 9.30am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Gwyneth Ellis, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Hugh Irving, Alan James, Delyth Jones, Paul Keddie ac Andrea Tomlin.

Arsylwr – Cynghorydd Barry Mellor

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd (IM), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddogion Gorfodi (Trwyddedu) (KB ac NS) a Swyddogion Pwyllgor (KEJ ac RJT [Gweddarlledwr])

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Win Mullen-James

Roedd y Cynghorydd Michelle Walker yn methu ymuno â'r cyfarfod dros Zoom oherwydd materion technegol gyda'r system fideo gynadledda.

2 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2021/22. Roedd y Cynghorydd Andrea Tomlin yn cynnig, a'r Cynghorydd Hugh Irving yn eilio i'r Cynghorydd Bobby Feeley gael ei phenodi yn Gadeirydd. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD *penodi'r Cynghorydd Bobby Feeley yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.*

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2021/22. Roedd y Cynghorydd Andrea Tomlin yn cynnig, a'r Cynghorydd Paul Keddie yn eilio i'r Cynghorydd Hugh Irving gael ei benodi yn Is-gadeirydd. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD *penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.*

4 DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y Cynghorydd Joan Butterfield yn datgan cysylltiad personol yn eitem 10 ar y rhaglen gan ei bod yn defnyddio tacsis ac yn adnabod y rhan fwyaf o'r gyrwyr tacsi.

5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022.

PENDERFYNWYD *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

7 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD CERBYDAU HACNI

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (RhBGC) adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau adolygu'r ffioedd tariff arfaethedig ymhellach ar gyfer cerbydau hacni (tacsis) yn sgil yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.

Roedd y newidiadau arfaethedig i ffioedd cerbydau hacni a ffioedd wedi eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghori gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mawrth 2022 ac wedi dilyn cais gan yrwyr trwyddedig i adolygu'r ffioedd tariff. Roedd pedwar gwrthwynebiad wedi eu derbyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad ynghyd â nifer o sylwadau a dderbyniwyd i gefnogi'r newidiadau arfaethedig yn y tariff a dwy ddeiseb wedi eu llofnodi gan 38 o yrwyr trwyddedig. Roedd y newidiadau arfaethedig i'r tariff presennol wedi eu hamlygu a chyfeiriwyd hefyd at sefyllfa bresennol yr awdurdod yn y "tabl cynghrair" o ffioedd tacsis o'u cymharu â'r cynnig. Gofynnwyd i'r Aelodau adolygu'r ffioedd tariff arfaethedig ac ystyried pa un i addasu'r ffioedd tariff arfaethedig neu wrthod y cynigion, yn sgil y wybodaeth a ddarparwyd ac ymatebion a dderbyniwyd. Roedd meysydd penodol i'w hystyried yn cynnwys amseru Tariff 2, y dyddiau ble roedd Tariff 2 yn cael ei weithredu a pha un a oedd y raddfa fesul milltir yn fesur priodol ar gyfer pellter dilynol.

Roedd y RhBGC yn arwain yr aelodau drwy fanylion yr adroddiad a'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn amlygu'r materion a godwyd yn y sylwadau hynny. Yn fyr, roedd yna wrthwynebiadau cymysg i'r ffioedd tariff arfaethedig yn ymwneud ag amrywiol agweddau o'r cynigion gyda rhai yn gwrthwynebu elfennau penodol o'r cynnig ac eraill i unrhyw a holl gynnydd yn y tariff. Roedd y rhan fwyaf o wrthwynebiadau yn erbyn amseriad Tariff 2 ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn a'r cyflwyniad o Dariff 2 ar ddydd Sul. Roedd gwrthwynebwyr eraill yn cefnogi cynnydd yn y ffi cychwyn ond nid fesul milltir ac roedd eraill yn cwestiynu'r raddfa fesul milltir fel mesur priodol. Prif sail y gwrthwynebiad oedd y byddai'r cynnydd arfaethedig yn y ffi yn atal defnydd o dacsi ac yn cael effaith niweidiol ar y gwaith, gyda gwaith gwerthfawr yn cael ei golli o ganlyniad. Roedd y sawl o blaid y cynnydd yn gweld cynnydd mewn costau byw yn cael effeithiau arwyddocaol ar hyfywedd y fasnach a phrinder gyrwyr i fodloni'r galw gan gwsmeriaid. Roedd y RhBGC hefyd yn cyfeirio at e-bost a anfonwyd yn uniongyrchol at aelodau gan

yrrwr tacsi mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd i gefnogi'r newidiadau tariff arfaethedig.

Nid oedd y Cynghorydd Martyn Hogg yn teimlo bod yna ddigon o wybodaeth wedi'i darparu i ddeall effeithiau llawn y cynnydd yn y raddfa ond roedd yn derbyn yr angen i godi'r tariff oherwydd cynnydd mewn costau gan y busnes tacsis. Roedd y cynnig presennol yn uwch na chwyddiant ac yn cymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad roedd yn cynnig newid (fel cyfaddawd) yn unol â chwyddiant (tua 10%) fel a ganlyn -

- Tariff 1 - ffi cychwyn £4.00 (yn cynnwys y filltir gyntaf), ffi fesul milltir ar ôl hynny £2.20
- Tariff 2 - ffi cychwyn £5.50 (yn cynnwys y filltir gyntaf), ffi fesul milltir ar ôl hynny £3.30
- Codi ffi mewn cynyddrannau un rhan o ddeg o filltir
- Dim newid i amseru Tariff 2

Roedd y Cynghorydd Hogg yn egluro ei reswm am y newid a rhoddodd enghreifftiau o'r cynnydd canran yn y gost fesul siwrnai o ganlyniad. Roedd yn teimlo y dylid gwneud mwy o waith i ddeall y cyfartaledd siwrnai tacsi yn y sir ac adolygu amseroedd tariff gynted â phosibl. Roedd y newid arfaethedig wedi'i drafod gyda'r RhBGC wnaeth gadarnhau bod y cynnig Tariff 2 angen ei adolygu fel y raddfa fesul milltir. Roedd ymarferoldeb y newid wedi'i gydnabod ond ni wnaed unrhyw gyfrifo ar y cynigion diwygiedig. Roedd y Cynghorydd Joan Butterfield yn eilio'r newid a hefyd yn galw am adolygiad mewn chwe mis. Roedd yn siomedig i nodi mai ond un ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad gan y cyhoedd.

Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn nodi'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r adolygiad o ffioedd a'r prosesau i'w dilyn yn y cyswllt hwnnw ynghyd â'r dewisiadau fydd ar gael i'r Pwyllgor i gymeradwyo/newid y tariffau arfaethedig gyda dyddiad gweithredu 1 Gorffennaf 2022 neu eu gwrthod. Os byddai'r aelodau o blaid cynnal ymgynghoriad pellach, yna byddai'r broses yn ailddechrau a fyddai'n gohirio unrhyw weithrediad o'r tariffau.

Roedd yr Aelodau yn ystyried yr adroddiad yn ofalus, gan gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad, y tariff arfaethedig a newid dilynol i'r tariff hwnnw, a manteisiodd ar y cyfle i ofyn cwestiynau i'r RhBGC a hefyd clywodd gan ddau aelod o'r busnes tacsi, un o blaid ac un yn erbyn y cynnydd arfaethedig yn y tariff. Roedd Mr L Peake yn siarad yn erbyn y cynnydd arfaethedig yn y tariff, amlygodd y problemau i weithwyr tacsi yn hysbysebu ffioedd gostyngol gyda rhai gyrwyr yn codi'r mwyafswm ffi oedd yn anodd i weithwyr yn arbennig yn achos perchennog-yrrwr. Roedd yn dadlau bod y cynnydd arfaethedig yn y tariff yn rhy uchel ac y byddai cwsmeriaid yn cael eu colli. Roedd Mr I Horvath yn siarad dros y cynnydd tariff arfaethedig gan amlygu'r cynnydd sylweddol mewn cost cysylltiedig â cherbyd cyffredin a rhoddodd enghreifftiau o siwrnai nodweddiadol a chostau a ysgwyddir mewn gwahanol ardaloedd o'r sir a phellteroedd hirach.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol -

- roedd y ffi cychwyn yn y tariff arfaethedig hefyd yn cynnwys y filltir gyntaf

- ffioedd tariff a osodwyd gan y Cyngor oedd y mwyafswm a ganiateir a gellir cytuno ar lai o ffi gyda'r cwsmer.
- roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn y tariff
- roedd y mwyafrif o wrthwynebiadau yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i Dariff 2
- roedd codi graddfa cynyddrannol fesul milltir yn hytrach na chyfradd safonol fesul milltir yn golygu bod y cwsmer ond yn talu am yr union filltir a wnaed yn hytrach na milltir llawn
- mae'n bosibl y bydd canlyniad nas fwriadwyd o ddosbarthu newidiadau i'r tariffau arfaethedig o ystyried nad oedd y manylion wedi eu harchwilio yn iawn ymlaen llaw.
- roedd y cynigion tariff a gytunwyd gan y Pwyllgor ar gyfer ymgynghoriad yn seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd gan nifer o yrwyr trwyddedig, nid gan swyddogion.
- nid oedd unrhyw gorff cynrychioli ar gyfer gyrwyr tacsi yn Sir Ddinbych
- roedd y cynigion tariff yr ymgynghorwyd arnynt mewn telerau canran wedi codi o 7% ar gyfer siwrnai dwy filltir ac wedi cynyddu dros filltiroedd ychwanegol, po bellaf y siwrnai, po uchaf y cynnydd yn y canran. Fodd bynnag, byddai'r Tariff 2 arfaethedig o bosibl yn dyblu neu'n treblu'r ffi a byddai'n fater dadleuol i gwsmeriaid.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd gyngor o ran y broses gwneud penderfyniad a rheolau gweithdrefn o ran newidiadau i gynigion. Ar y pwynt hwn, galwodd y Cadeirydd am bleidlais ar y newid arfaethedig gan y Cynghorydd Hogg, a eiliwyd gan y Cynghorydd Joan Butterfield, a gafodd ei ailddatgan er budd aelodau. O'i roi i bleidlais, ***COLLWYD*** y diwygiad.

Roedd y Cynghorydd Delyth Jones yn amlygu'r angen am gynnydd mewn ffioedd i gefnogi'r diwydiant tacsi i symud tuag at gerbydau ecogyfeillgar. Roedd yn cefnogi graddfa cynyddrannol fesul milltir o'r ail filltir ymlaen er budd tegwch i gwsmeriaid, ond teimlwyd na ddylid wneud unrhyw newid i amser Tariff 2 yn dibynnu ar adolygiad buan o ganlyniadau ei weithredu. O ganlyniad, roedd y Cynghorydd Jones yn cynnig newid pellach, eiliwyd gan y Cynghorydd Paul Keddie, bod y tariff fel y nodwyd yn y cynigion gwreiddiol, yn ddarostyngedig i filltiroedd ychwanegol yn cael eu mesur mewn degfed ran o gynyddran milltir a dim newidiadau i amseriadau Tariff 2 (a fyddai'n ddarostyngedig i adolygiad buan). Wrth bleidleisio, cafodd y newid ei ***GARIO*** felly yn cymryd lle y cynnig gwreiddiol ac yn brif gynnig y gellir cymeradwyo unrhyw newid pellach iddo***.***

Roedd y RhBGC yn nodi ar y pwynt hwn bod yr 20c o ordal fesul teithiwr ar gyfer siwrnai gyda mwy na 4 teithiwr wedi'i adael o'r adroddiad. Gofynnodd i'r aelodau ystyried gweithredu'r elfen honno o'r cynnig fel rhan o'u hystyriaethau.

Er y cydnabuwyd y gallai newidiadau i'r tariff arfaethedig gael eu dosbarthu yn y cyfarfod, roedd y Cynghorwyr Joan Butterfield a Hugh Irving yn mynegi pryder y gallai fod canlyniadau na fwriadwyd o ganlyniad nad oedd y manylion wedi'i archwilio'n iawn gan swyddogion a'i gyflwyno i aelodau ymlaen llaw gyda'r effeithiau llawn wedi eu cadarnhau. Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd wedi cynnwys y gofynion deddfwriaethol a

rheolau gweithdrefn ac roedd yn fodlon bod y prosesau statudol wedi eu dilyn a'i fod yn berffaith iawn i wneud penderfyniad. Fodd bynnag, os nad oedd yr aelodau yn hapus i wneud penderfyniad ac yn dymuno gohirio neu geisio ymgynghoriad pellach, yna roedd yn fater llwyr iddyn nhw. Os byddai penderfyniad yn cael ei ohirio, byddai'r ffioedd presennol yn parhau a byddai'r broses yn ailddechrau. Roedd y Cynghorydd Hogg yn ailddatgan ei bryderon nad oedd yna ddigon o wybodaeth wedi'i darparu o'r dechrau i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a gofynnodd am broses briodol ar gyfer asesu ffioedd tacsi yn y dyfodol i gynnwys costau chwyddiant a'r effeithiau ar gwsmeriaid a lletygarwch.

Roedd y Cadeirydd yn galw am bleidlais ar y prif gynnig, a ailddatganwyd, gan gynnwys gordal o 20c fesul cwsmer ar gyfer siwrnai gyda mwy na 4 o deithwyr.

Wrth bleidleisio –

PENDERFYNWYD *bod -*

(a) *y tariff bwriedig fel y manylwyd yn Atodiad D gyda*'r adroddiad i gael ei gymeradwyo gyda dyddiad gweithredu 1 Gorffennaf 2022, yn ddarostyngedig i filltiroedd ychwanegol gael eu mesur mewn degfed rhan o gynyddran milltiroedd, dim newidiadau i'r amser tariff a fyddai'n parhau fel y gosodiad cyfredol yn 2018, a gordal fesul teithiwr o fwy na 4 teithiwr o 20c, ac

(b) *adolygiad o'r tariffau, gan gynnwys amser Tariff 2, i gael ei gynnal gydag adroddiad yn ôl i'r aelodau ar gyfer ystyriaeth bellach mewn tua chwe mis.*

[Ar y pwynt hwn (11.25am) cymerodd y pwyllgor egwyl fer.]

8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR WAITH YR ADAIN DRWYDDEDU YN 2021/22

Roedd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (RhBGC) wedi cyflwyno adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar waith yr Adain Drwyddedu yn ystod 2021/22 oedd yn canolbwyntio ar faterion gweithredol a rheoli.

Aeth y RhBGC â'r aelodau drwy'r adroddiad oedd yn darparu data ystadegol o'r nifer o drwyddedau a gyhoeddwyd, cwynion a cheisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd yn cynnwys y prif swyddogaethau - Alcohol ac Adloniant, Trwyddedu Cerbydau Hacni a Phreifat, Hapchwarae, a Loteri; Masnachu ar y Stryd, Casgliadau Elusen a Metel Sgrap gyda gwaith cysylltiedig â Covid a materion ategol eraill, gan gynnwys canlyniadau a gohebiaeth llwyth gwaith cyffredinol. Roedd materion rheoli yn cynnwys polisïau, ffioedd, cwynion yn erbyn y gwasanaeth ynghyd ag ystyriaethau llwyth gwaith y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn amlygu llwyth gwaith trwm y Tîm Trwyddedu fel yr adlewyrchwyd yn yr adroddiad a llongyfarchodd nhw am eu hymdrechion a oedd wedi ei weld wrth gysgodi swyddogion yn ymgymryd â'u dyletswyddau.

Roedd swyddogion yn egluro amrywiol agweddau o'r adroddiad mewn ymateb i gwestiynau fel a ganlyn -

- roedd y dair cwyn ynglŷn â materion metel sgrap yn ymwneud â gweithgaredd didrwydded posibl oedd yn cynnwys casglu metel sgrap heb y drwydded angenrheidiol neu â safle didrwydded.
- roedd y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth yn nodi ar gyfer y mwyafrif o geisiadau na ellir codi tâl. Fodd bynnag, roedd yna ddarpariaeth ar gyfer tâl o £25 fesul awr os byddai ymateb i'r cais yn cynnwys mwy na deunaw awr o amser swyddog. Roedd yna rwymedigaeth i gynorthwyo gyda mireinio'r cais i sicrhau ei bod yn haws ymateb mewn achosion o'r fath.
- roedd gwerthu alcohol i bobl dan oed yn derbyn sylw yn gymesur ac ymatebir fel bo'n briodol yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd, yn gyffredinol profion prynu yn y lle cyntaf gyda chyngor neu rybudd yn cael ei roi. Gellir cymryd camau pellach ar gyfer trosedd a ailadroddir gydag erlyniad y cam olaf.
- nid oedd arwerthiant tybaco a sigarets yn gyffredinol yn fater i'r Pwyllgor Trwyddedu ond byddai unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd yn cael ei ddilyn a chymryd camau priodol o fewn y grymoedd sydd ar gael ac anogir pobl i roi gwybod am y materion hynny wrth i'r gwasanaeth ymateb i'r wybodaeth sydd ar gael. Roedd y Cynghorydd Joan Butterfield yn amlygu achos penodol yn ei ward ac yn cadarnhau y byddai'n anfon y wybodaeth angenrheidiol yn uniongyrchol i'r RhBGC.

PENDERFYNWYD *y byddai'r aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â diweddariad ar eitemau a aildrefnwyd a'r rhaglen gwaith i'r dyfodol diwygiedig arfaethedig.

Roedd blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau mewn cysylltiad â'i swyddogaeth drwyddedu a'r rheoliad, rheolaeth a gorfodaeth effeithiol Trwyddedai ac ymrwymiad yr Awdurdod i gymunedau mwy diogel a datblygiad yr economi. Oherwydd blaenoriaethau annisgwyl, roedd y rhaglen gwaith i'r dyfodol a gymeradwywyd yn flaenorol wedi'i diwygio gydag eitemau wedi eu haildrefnu a rhaglen gwaith i'r dyfodol diwygiedig wedi'i chyflwyno i'w hystyried.

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar yr eitemau hynny a aildrefnwyd oedd yn ymwneud ag -

- Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Cerbydau Hurio Preifat
- Adolygu Datganiad o Egwyddorion - Deddf Gamblo 2005
- Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd
- Datganiad o Bolisi Trwyddedu – Deddf Trwyddedu 2003

Roedd Aelodau yn nodi'r diweddariad a diwygiadau arfaethedig i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD *bod -*

(a) cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi; a

(b) *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2022 fel yr amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad.*

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 yn Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.*

10 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 557452

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol) wedi -

(i) derbyn cais gan Ymgeisydd Rhif 557452 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) yr Ymgeisydd wedi dal trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat yn flaenorol a oedd o ganlyniad wedi'i ddirymu ym mis Mai 2021 yn dilyn croniad o euogfarnau moduro am oryrru ac arwain at wahardd rhag gyrru am gyfnod o chwe mis o dan y gweithdrefnau crynhoi pwyntiau cosb (TT99);

(iii) y cais wedi'i atgyfeirio i'r Pwyllgor Trwyddedu ar 2 Mawrth 2022 i'w benderfynu ac yn dilyn ystyriaeth o holl dystiolaeth a gyflwynwyd, yn cynnwys cais yr Ymgeisydd ac ymateb i gwestiynau, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu caniatau'r cais yn ddarostyngedig i holl wiriadau angenrheidiol eraill cysylltiedig â'r cais yn foddhaol;

(iv) Mae gwiriadau dilynol wedi dangos bod dau o'r troseddau goryrru wedi digwydd mewn tacsi trwyddedig, yn groes i gyfrif yr Ymgeisydd, roedd yr euogfarnau goryrru wedi digwydd tra'n gyrru beic modur yn unig drwy weithgaredd hamdden ac nid mewn capasiti proffesiynol fel gyrrwr trwyddedig.

(v) roedd y mater wedi'i gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu yn sgil y wybodaeth newydd lle roedd amheuaeth am onestrwydd yr Ymgeisydd.

(vi) polisi'r Cyngor ynglŷn ag addasrwydd Ymgeisydd a dewisiadau ar gael i'r Pwyllgor wrth ystyried y cais, a

(vii) i'r Ymgeisydd gael ei wahodd i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Roedd yr Ymgeisydd yn ymddiheuro am y wybodaeth anghywir a ddarparwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd wedi cysylltu â'r DVLA i gael y wybodaeth angenrheidiol ond cafodd wybod nad oedd ar gael mwyach felly roedd wedi ateb hyd eithaf ei allu. Nid oedd yn ymwybodol y gellir cael y wybodaeth gan Lys yr Ynadon. Roedd ganddo nifer o gerbydau gwahanol ac roedd yn anodd gwybod ym mha gerbyd yr oedd yr euogfarnau wedi digwydd. Cyfeiriwyd at effaith y gwaharddiad gyrru ar ei amgylchiadau personol a rhoddodd sicrwydd ynglŷn â'i ymddygiad gyrru yn y dyfodol. Bu'n yrrwr trwyddedig am bedair blynedd ar ddeg heb broblem ac roedd wedi darparu geirda ynglŷn â'i gymeriad a gwasanaeth da. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd wedi derbyn unrhyw euogfarnau goryrru ers adfer ei drwydded DVLA.

O ran anonestrwydd yn y broses ymgeisio, gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â pha mor anghywir oedd y wybodaeth ddaeth gerbron y Pwyllgor. Eglurodd yr Ymgeisydd fod ganddo nifer o gerbydau gwahanol, tri ohonynt wedi eu trwyddedu ac roedd bellach wedi gwerthu'r ddau feic modur - roedd wedi bod yn poeni mwy am yr euogfarnau goryrru yn hytrach na'r cerbyd oedd ganddynt a brynwyd ym mis Mawrth. Roedd wedi cysylltu â'r DVLA gyda'r bwriad i brofi nad oedd wedi bod yn gyrru llawer mwy na'r terfyn cyflymder ond nid oedd yn gallu derbyn y wybodaeth. Roedd wedi cael y cwestiwn gan y Pwyllgor heb baratoi ac wedi ateb mor onest ag y gallai heb fod â'r wybodaeth angenrheidiol. Nid oedd yn siaradwr cyhoeddus ac roedd wedi cynhyrfu wrth ateb y cwestiwn. Yn ei ddatganiad terfynol roedd yr Ymgeisydd yn ymddiheuro i'r Pwyllgor am ei gamau ac roedd yn gobeithio symud ymlaen.

Cafodd y Pwyllgor egwyl er mwyn ystyried y cais a -

PENDERFYNWYD *gwrthod cais ar gyfer trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 557452.*

Dyma resymau'r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor ar 2 Mawrth 2022 yn seiliedig ar y ffaith bod yr Ymgeisydd wedi derbyn yr euogfarn goryrru tra'n gyrru beic modur yn unig drwy hamddena ac nid mewn capasiti proffesiynol fel gyrrwr trwyddedig. Roedd y penderfyniad hwnnw hefyd wedi gosod amod rhoi'r drwydded, yn ddarostyngedig i'r holl wiriadau angenrheidiol cysylltiedig â bod y cais yn foddhaol. Roedd y gwiriadau hynny wedi dangos bod yr euogfarn goryrru a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ymwneud â dau gerbyd trwyddedig gwahanol.

Roedd y Pwyllgor wedi ystyried amgylchiadau penodol yr achos yn ofalus, fel yr oeddent i'w gweld yn yr adroddiad, ynghyd â chyflwyniadau'r Ymgeisydd a'i atebion i gwestiynau a'r geirdaon a ddarparwyd. Roedd yr aelodau hefyd wedi ystyried yr

adrannau perthnasol yn Natganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor ynghylch addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y masnachau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Yn benodol, roedd y Pwyllgor wedi ystyried adran 4.20 oedd yn nodi y byddai unrhyw anonestrwydd gan yr ymgeisydd a ganfuwyd oedd wedi digwydd mewn unrhyw ran o unrhyw broses ymgeisio yn arwain at wrthod trwydded. Gan ystyried y ddarpariaeth polisi, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn ystyried 3.19 yn yr un polisi, oedd yn datgan na ddylid ond gwyro oddi wrth ddarpariaeth yn y polisi mewn amgylchiadau eithriadol ac am resymau cyfiawn. Roedd y Pwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth yr eglurhad a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd ynglŷn â'r cwestiwn o anonestrwydd ynghyd â'r geirdaon a ddarparwyd a hanes blaenorol fel gyrrwr trwyddedig, ond nid oedd yn teimlo bod yna sail digonol i wyro oddi wrth darpariaeth polisi yn adran 4.20. O ganlyniad, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu gwrthod y cais.

Cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

Hefyd, cynghorwyd yr ymgeisydd nad oedd penderfyniad y Pwyllgor yn ei atal rhag cyflwyno cais pellach yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pwysleisio wrth yr Ymgeisydd am bwysigrwydd bod yn gwbl onest a thryloyw gydag unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn unrhyw gais yn y dyfodol.

Hysbyswyd yr Ymgeisydd ymhellach am yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y llythyr penderfyniad ffurfiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15pm.